# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 10/08/15, Siop Siarad Nefyn

---

Presennol

| | | |
|---|---|---|
| Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Bleddyn Evans |
| Guto Williams | Megan Williams | Sian Hughes |
| Dafydd Rhun | Glesni Jones (Clerc) | |

1. Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Huw Williams | G Emlyn Jones | Ashley Hughes |
| Catrin Roberts | Robert Jones | Alan Jones |
| Sharon Williams | John Thomas | |

2. Datgan buddiant ariannol neu personol

   Arfon Hughes – Datganiad personol

   Glesni Jones – Datganiad personol

3. Cofnodion 14fed o Gorffennaf

   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. Croesawu aelodau newydd y Cyngor
   Cyng. Sian Hughes – Morfa Nefyn

5. Trefniadau Bancio wedi ei sortio – Gwybodaeth maylion cyswllt wedi ei ddiweddaru gyda HSBC

6. Llyfrgell Nefyn
   Cyfnod ymgynghorol dal yn mynd ymlaen – angen gweld faint o bobl fydd wedi arwyddo'r ddeiseb. Hefyd angen gwybod faint fydd y gost tymor hir cyn i Gyngor Tref Nefyn neud y penderfyniad os yw'n bosib iddynt ei weithredu.

7. Cronfa Loteri – Cymunedau Arfodirol

Cae aml-ddefnydd yn Bryn Mynach – Cais wedi ei wneud am grant gan Mantell Gwynedd o £10,000.00. (Telerau ac Amodau Cynnig Grant wedi ei dderbyn) £ 5,000.00 i ddod gan Cist Gwynedd. Arfon Hughes wedi gofyn wrth Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn am gyfraniad o £10,000.00 ac wedi derbyn llythyr addawol yn cefnogi'r cais. £25,000.00 gan Cyngor Tref Nefyn, arian wrth gefn o'r cae chware ac arian VAT yn nol.

Hefyd efallai bydd yr Heddlu yn gallu cyfrannu arian i ddatblygu y cae ar ol ei gwblhau e.e. golau fflyd.

8. Adran Cynllunio

Gwaith Peirianyddol ar y rhan isaf o'r Lon Gam Nefyn

Roedd y Clerc a'r Cadeirydd wedi datgan diddordeb yn yr eitem yma ar yr Agenda ac mi ddaru'r ddau adael y cyfarfod.

Nododd y Cynghorydd Gruffydd Williams fod y gwaith peirianyddol wedi dod i'w sylw gan aelodau o'r cyhoedd a oedd yn pryderu fod y gwaith peirianyddol wedi gwanio'r clogwyn islaw ar man parcio ar y Lon Gam.

Eglyrodd y Cynghorydd Gruffydd Williams ei fod wedi bod mewn cysylltiad ar Adran Gynllunio i drafod y pryderon a fod yr Adran Gynllunio wedi trosglwyddo y galwad i'r Adran Gorfodaeth am nad oedd Cais Cynllunio wedi ei wneyd ar gyfer y gwaith.

Nododd y Cynghorydd Gruffydd Williams ei fod o wedi mynegi ei bryderon ynglyn ar gwaith peirianyddol yma ar y Lon Gam, a fod yna sawl dirlithriad wedi bod yn yr ardal yma yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn wir bod yna tri o bobl wedi cael ei lladd gan dirlithriad yn ystod y deugain mlynedd diweddaf.

Cafwyd cadarnhad o'r Adran Orfodaeth fod y gwaith wedi cael ei atal hyd nes y derbynwyd Adroddiad Daearegol a Pheirianyddol Proffesiynol Anibynol.

Dywedodd y Cyngorydd Dafydd Rhyn ei fod am gysylltu hefo'r Adran Orfodaeth i cael diweddariad ar y sefyllfa.

9. Potiau blodau

Briadd yn hwyr i blanu blodau flwyddyn yma, angen ei wneud mis Mawrth nesa, angen rhoi ar yr agenda mis Chwefror.

Dau bot wedi malu yn Cof Golofn, angen archebu rhai newydd.

Cyng. Gruffydd Williams am gael sgwrs gyda Jenny ynglyn ar potiau

10. Ceisiadau Cynllunio

C15/0783/42/MG – Safle Capel Caerslaem, Lon Terfyn

C15/0785/42/LL – Penrhyn, Cefn Morfa

C15/0795/42/LL – Canton House, Strydd y Ffynnon, Nefyn

Dim gwrthwynebiad

***11. Gohebiaeth***

*Wedi derbyn llythyr o ddiolch gan Glwb Peldroed Nefyn am y cyfraniad*

***12**. Siec wedi ei dderbyn am £1,000.00 gan Menter Uchel Siryfion at ddodrefn i Siop Siarad*

***13**. Derbyn siec £630.00 gan GD Roberts & Son Trefnwyr Angladdau*

**Ceisiadau am Gyfraniad.**

Dim wedi ei dderbyn

Taliadau – Caniatad wedi ei roi i'r Clerc dalu'r isod.

- Cyflog y clerc £479.29 (Sarah)
- PAYE y Clerc (Sarah) £119.80
- Cyflog Simon Jones a PAYE
- Mr C Hughes £1438.00
  Contract Llwybrau
- Dafydd Parry £908.00
  *Contract Mynwentydd*
- Dunn & Ellis PAYE £114.00

CYFARFOD NESA 8FED O FEDI – YSGOL MORFA NEFYN